

Adroddiad o Gymanfa Gyffredinol EBC 2014

Pa le, pa fodd y mae dechrau cloriannu y Gymanfa Gyffredinol gyntaf i mi ei threulio fel myfi fy hunan?

Am flynyddoedd, bûm yn mynychu un ai yn rhinwedd fy swydd yn newyddiadurwr i'r cylchgrawn Golwg, a'r cwmni hwnnw am gyfnod yn gyfrifol am ysgrifennu a chynhyrchu Llais y Gymanfa; neu'n Gynhyrchydd Rhaglenni Crefydd y gorfforaeth a elwir y BBC yng Nghymru..

Fy sylw cyntaf, a minnau'n cynrychioli Henaduriaeth Arfon yn Aberystwyth rhwng Gorffennaf 7-9 eleni, oedd ei fod yn brofiad gwerinol a brawdol, yn yr ystyron gorau. Yno gyda mi o Arfon yr oedd Alwenna Puw a Cynthia Owen - dwy y mae eu profiad o gymanfaoedd a phwyllgorau yn helaethach lawer na fi, a dwy sydd bob amser yn barod i rannu eu gwybodaeth a'u profiad. Diolch am hynny.

Yr un peth oedd yn wir am gymanfawyr eraill yr henaduriaethau o Gymru a thu hwnt i Glawdd Offa; ac roedd yna wir deimlad o 'un eglwys' yn chwilio am ffordd ymlaen. Does yna ddim gwadu ei bod hi'n 'argyfwng' mewn sawl ystyr, ond mae'n bosibl ennyn nerth ac ysbrydoliaeth oddi wrth ein gyd-Gristnogion, yn hen ac ifanc.

Mae'n wir hefyd bod modd amsugno agweddau amrywiol - a'u dadlau - yn llawer mwy adeiladol dros baned neu beint, wyneb yn wyneb. Dysgais lawer wrth siarad llai a gwrando mwy.

Ond yn yr adroddiad hwn, gwell i mi ganolbwyntio ar yr hyn a gredaf oedd penderfyniadau mwyaf allweddol y Gymanfa eleni:

* Un o faterion cyntaf bore Llun y cynulliad oedd ystyried ymateb Eglwys Bresbyteriaidd Cymru i'r Ddeddf Priodas (Cyplau Hoyw) 2013. Barn y Comisiwn oedd y dylid gohirio unrhyw benderfyniad, gan wahodd Bwrdd y Gymanfa i roi ystyriaeth bellach i drafodaeth yn ei gyfarfod ym Medi 2017. Ymhen tair blynedd! Gwych yw gallu dweud fod y cynnig hwnnw wedi syrthio'n fflat ar lawr y Gymanfa, gyda'r consensws fod hwn yn fater brys. Dylid, meddai'r Gymanfa, dod i benderfyniad un ai eleni neu yn 2015. Bydd Bwrdd y Gymanfa yn ail edrych ar y sefyllfa ac yn dwyn adroddiad ac argymhellion i Gymanfa 2015.

* Cytunwyd ar gynllun newydd a fydd yn dod yn weithredol ym Medi 2015 a fydd yn lleihau nifer yr adrannau o fewn Eglwys Bresbyteriaidd Cymru o 12 i 8. Mi fydd gan yr henaduriaethau a'r cymdeithasfeydd yr hawl i alw pwyllgorau neu grwpiau i edrych ar faterion ychwanegol fel y byddan nhw'n codi.

* Fe fydd Eglwys Bresbyteriaidd Cymru yn cyfrannu £35,000 y flwyddyn am dair blynedd i elusen Stafell Fyw, Caerdydd, sy'n gweithio gyda dioddefwyr dibyniaeth o bob math.

* Bydd gweinidogion yn cael codiad cyflog o 1.5% yn 2015.

* Mynegwyd na ddylid cymryd ystyriaeth rifau aelodaeth yn unig wrth drafod cyflogaeth gweinidogion rhan-amser, ond hefyd y nifer o eglwysi yn yr ofalaeth.

* Anfonwyd llythyr o'r Gymanfa at Huw Lewis, Gweinidog Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru, yn gofyn iddo "ail-ddatgan cefnogaeth Llywodraeth Cymru i barhau'r trefniadau ar gyfer addoli ar y cyd ac i ymrwngod ag unrhyw gamau i newid y Ddeddf ynglyn a'r arfer priodol" o gynnal gwasanaethau crefyddol yn ysgolion Cymru.

* Clywyd fod y Gronfa Bensiwn wedi perfformio'n arbennig, a'i bod ymhell yn y du. Roedd gwarged y llynedd, yn hytrach na diffyg.

* Ffarwelwyd a Mari Fflur, Swyddog Cyfathrebu EBC a fu yn y swydd am saith mlynedd, a dymunwyd yn dda iddi ar ei phriodas ag Iwan ymhen pythefnos wedi'r Gymanfa.

* Derbyniwyd adroddiad y Panel Eciwmeniaidd, yn enwedig yng ngyd-destun gwaith gyda Chomisiwn yr Eglwys Cyfamodol, sy'n ceisio ffordd ymlaen rhwng yr holl enwadau ac eglwysi yng Nghymru. Gan fod "cydweithio lleol yn hollol hanfodol", fe gydnabyddwyd y Cyfamod sy'n hyrwyddo undod gweladwy ar gyfer yr Eglwys yn Uno yng Nghymru.

* O ran buddsoddi, mae EBC wedi penderfynu peidio buddsoddi yn y cwmnïau sy'n gweithio mewn meysydd sy'n mynd yn groes i ddibenion yr eglwys.

* Am bob gwerthiant eiddo a gytunwyd gan henaduriaeth ar ol Ionawr 1, 2015, bydd y derbyniadau'n cael eu rhannu 50/50. Mae hyn yn digwydd gyda'r addewid y bydd 50% yn cael ei fuddsoddi ar ran yr eglwys neu'r gronfa strategaeth leol, a'r hanner arall i'r gronfa ganolog.

* Ymysg y materion gohiriedig oedd anfon llythyr at eglwysi EBC yn pwysleisio natur gysegredig a lle canolog y sacramentau yn ein traddodiad. Dim ond gweinidogion ordeiniedig o'r traddodiad

trindodaidd, ynghyd a blaenoriaid a gomisiynwyd gan EBC (neu enwad arall) a ddylai eu gweinyddu.

* O'r hyn na chafodd ei ddweud yr oedd protestiadau posterï'r Parchedig Morris P Morris yn hollbresennol tros briodasau un rhyw. Ymhlith ei sloganau yr oedd y canlynol: "Mae rhagfarn rhy hawdd"; "Hawl yw priodas, nid braint"; "Nid yw bod yn hoyw yn bechod"; "Duw cariad yw"; "Peidiwch cydymffurfio... â rhagfarn"; "Hoyw a chadwedig? Haleliwia!"; "Amser i newid, er mwyn Iesu"; "Pwy sy'n 'warthus' a 'ffiaidd'?" "Nid 'egwyddor' yw 'homoffobia'".

Soniais droeon am fy mhryderon ynghylch cyfeiriad diwinyddol Coleg y Bala. Credaf ei fod yn llawer rhy asgell dde, a'i fod yn crwydro'n groes i'r pethau gorau yn nhraddodiad ein henwad. Deuthum o'r Gymanfa eleni yn teimlo, eto, nad yw'r gweithdrefnau - a'i holl staff o'r un anian - yn gwasanaethu anghenion aelodau EBC, a chadarnhawyd fy nghred na allaf feddwl am fynd â phobol ifanc o fy ardal a fy nghapel fy hun yno i gael eu dosio a'r ddysgeidiaeth. Beth ellid ei wneud i'r cyfeiriad hwn? Pwnc at eto ar lawr yr henaduriaeth, gobeithio, fydd ennill yn ôl goleg Lewis Richards ac ehangu ei fryd!

A dyna ni.... ond na! Mae'n wir mai newydd gorau Henaduriaeth Arfon yng ngymanfa 2014 oedd deall mai ein Hysgrifennydd, y Parchedig Ddr Elwyn Richards, enillodd y bleidlais i fod yn Llywydd Etholedig y Gymanfa. Bydd yn ymgymryd a'r barchus arswydus swydd yng Nghorffennaf 2015.

Miss Karen Owen, Capel y Groes.